

Micha 4:1-4

Yn y dyddiau diwethaf bydd mynydd tŷ'r ARGLWYDD

wedi ei osod ar ben y mynyddoedd

ac yn uwch na'r brynau.

Dylifa'r bobloedd ato,

a daw cenhedloedd lawer, a dweud,

“Dewch, esgynnwn i fynydd yr ARGLWYDD,

i deml Duw Jacob,

er mwyn iddo ddysgu inni ei ffyrdd

ac i ninnau rodio yn ei lwybrau.”

Oherwydd o Seion y daw'r gyfraith,

a gair yr ARGLWYDD o Jerwsalem.

Bydd ef yn barnu rhwng cenhedloedd,

ac yn torri'r ddadl i bobloedd cryfion o bell;

byddant hwy'n curo'u cleddyfau'n geibiau,

a'u gwaywffyn yn grymanau.

Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl,

ac ni ddysgant ryfel mwyach;

a bydd pob un yn eistedd dan ei winwydden

a than ei ffigysbren, heb neb i'w ddychryn.

Oherwydd genau ARGLWYDD y Lluoedd a lefarodd.

Myfyrdod

Daeth yn Sul y Cofio unwaith eto a bydd miloedd o bobl ar hyd

a lled y byd heddiw yn ymgasglu wrth gofebion rhyfel i gofio

am y rhai a gollwyd.

Yn 1920 dechreuwyd defnyddio'r pabi coch i goffáu colledion y Rhyfel Mawr - arfer a darddodd o'r ffaith fod y blodyn wedi ymddangos wrth y miliynau ar dir creithiog Ffrainc - ac yn 1933 dechreuwyd defnyddio'r pabi gwyn i gofio'r mamau, y gwraedd a'r plant a laddwyd. Does neb fu'n rhan o'r rhyfel erchyll hwnnw yn fyw bellach; bu farw Harry Patch, yr olaf o'r milwyr fu'n ymladd yn y ffosydd, yn 2009 yn 111 mlwydd oed. Ni fu pall ar y cofio, er hynny, ac mae pob darlun o'r milwyr, y ffosydd, eu harfau, eu perthnasau a'u teuluoedd yn mynd a ni yn ôl i fyd a chyfnod sydd wedi llwyr ddiflannu.

Byd lle'r oedd yr economi yn llwyr ddibynnol ar nerth bôn braich y gweithwyr, byd lle nad oedd gan ferched fawr o hawliau, byd heb wasanaeth iechyd na chyffuriau gwrthfotig, byd lle'r oedd gallu pobl i deithio yn gyfyngedig a chymdeithas yn llawer mwy sefydlog nag ydyw yn awr, a byd yma yng Nghymru lle'r oedd bywyd yn galed a thlodi'n gyffredin, a sefydliadau gwlad a chymuned i bob golwg yn gadarn.

Ac am fod ein byd ni mor wahanol y mae'n anodd inni 'gofio'. Ac eto, y gwir yw mai pobl yw pobl ym mhob cyfnod, ac er gwaethaf y gwahaniaethau fe allwn uniaethu, i ryw raddau beth bynnag, â'r teimladau o ofn a cholled â nodweddai'r cyfnod.

Ni ddylem ni fod yn ddifater nac yn ddifeddwl wrth gofio. Mae cofio'n fwy na seremoni a thraddodiad, a dylai cofio fod yn fodd i'n dysgu a'n deffro a'n dwys-bigo i ddal ati i weithio dros gyfiawnder a heddwch.

Gweddi

*O Dduw, dyneswn atat ti yn awr,
yn ymwybodol o golledion rhyfel ac yn gweddio am heddwch.
Cyflwynwn i ti bawb y mae'r dydd hwn yn dwyn gofid a hiraeth
i'w rhan*

*a gweddiwn dros bobloedd a gwledydd sydd wedi profi
anrhaith ryfel a therfysg.*

*Rydym yn ymwybodol o'r effeithiau erchyll a gaiff lladd a
brwydro ar aelodau'r lluoedd arfog, yn ogystal â'r boblogaeth
sifil,*

*a gweddiwn dros bawb sy'n dal i ddioddef yn emosiynol a
seicolegol o ganlyniad i'r hyn a ddigwyddodd, efallai
flynyddoedd lawer yn ôl.*

*Bydd ar bob aelwyd lle mae galar,
ac ym mhob cwmni lle ceir gofid,
ac estyn dy dangnefedd di dy hun i bawb sydd mewn angen.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.***

Emyn 844 'Efengyl tangnefedd'

Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd,
a deled y bobloedd i'th lewyrch i gyd;
na foed neb heb wybod am gariad y groes,
a brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.

Sancteiddier y ddaear gan Ysbryd y ne';
boed Iesu yn Frenin, a neb ond efe:
y tywysogaethau mewn heddwth ei draed
a phawb yn ddiogel dan arwydd ei waed.

Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr,
a doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr,
fel na byddo mwyach na dial na phoen
na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.

EIFION WYN, 1867-1926

Ctrl a chlic

<https://youtu.be/pLYtkyjaQIE>

Y Fendith

Rhodded Arglwydd tangnefedd

ei dangnefedd ei hun i ni

bob amser ac ym mhob man.

Yr Arglwydd a fyddo gyda ni oll. **Amen.**